Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 19 Tachwedd 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(163)v5

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**Cwestiwn Brys**

Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei adolygiad o gyllid Addysg Uwch?

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Cyflwyno'r Bil Tai (Cymru) (60 munud)**

**4 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am Ddinas-ranbarthau (30 munud)**

**5 Gorchymyn Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (Diwygio) (Cymru) 2013 (15 munud)**

NDM5355 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (Diwygio) (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Hydref 2013.

**Dogfennau Ategol**
Gorchymyn Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (Diwygio) (Cymru) 2013
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol - Gorchymyn Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (Diwygio) (Cymru) 2013

**6 Dadl ar Gyllideb Ddrafft 2014-15 (120 munud)**

**NDM5356 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.12:

Yn nodi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014-2015 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog Cyllid ar 8 Hydref 2013.

Mae Cynigion Cyllideb Ddrafft 2014-15 ar gael ar y ddolen ganlynol:

http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=250809&ds=10/2013

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn cydnabod y buddsoddiad ychwanegol a wnaethpwyd yn y gyllideb ddrafft i'r gwasanaeth iechyd yn sgîl y pwysau a roddwyd gan y Ceidwadwyr Cymreig; a

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailddrafftio ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2014-15 fel ei bod:

a) yn diogelu'r gyllideb iechyd mewn termau real ac yn mynd i'r afael â'r pwysau ariannol eithriadol sy'n wynebu byrddau iechyd lleol yng Nghymru;

b) yn bodloni anghenion busnesau ledled Cymru, er budd economi Cymru;

c) yn mynd i’r afael â’r heriau cyllido sy’n wynebu colegau Addysg Bellach, er mwyn iddynt allu darparu amrywiaeth lawn o sgiliau a chyrsiau galwedigaethol i ddysgwyr yng Nghymru.

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi’r cytundeb pwysig a gyflawnwyd gan Blaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i sicrhau:

a) Cronfa Gofal Canolraddol i leihau’r pwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys ac i ddarparu gofal yn nes at adref;

b) bod y Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei ddyblu;

c) tri robot Da Vinci modern a fydd yn darparu gweithdrefnau llawfeddygol llai mewnwthiol;

d) cronfa technoleg iechyd a thelefeddygaeth i roi Cymru ar flaen y gad ym maes technoleg feddygol;

e) bod y Rhaglen Cefnogi Pobl yn cael ei diogelu; ac

Yn nodi ymhellach yr effaith gadarnhaol y bydd buddsoddiadau o’r fath yn ei chael ar gymunedau ledled y wlad a’r gwelliannau mewn gwasanaethau cymunedol a fydd yn dilyn hynny.

**Cefnogwyd gan**:

Aled Roberts (Gogledd Cymru)

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu’r gweithredu ar y cyd rhwng Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Phlaid Cymru, a sicrhaodd y canlynol yn y Gyllideb Ddrafft:

a) £35 miliwn ychwanegol i ddyblu'r cyllid ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion er mwyn helpu i dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a thangyflawni addysgol;

b) Cronfa Gofal Canolraddol gwerth £50 miliwn i gefnogi byw’n annibynnol ac i leihau’r pwysau ar y system gofal mewn argyfwng;

c) buddsoddiad ychwanegol o £9.5 miliwn yn y Gronfa Technoleg Iechyd er mwyn cynyddu buddsoddiad mewn telefeddygaeth; a

d) Pecyn Cefnogi Pobl gwerth £5.5 miliwn i helpu i fynd i'r afael â digartrefedd.

**Cefnogwyd gan:**

Elin Jones (Ceredigion)

**Dogfen Ategol**

Gyllideb Ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014-2015
Adroddiad ar Waith Craffu'r Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15
Papur Ymchwil: Cynigion ynghylch y Gyllideb Ddrafft 2014-15 (Hydref 2013)- Y Gwasanaeth Ymchwil

**7 Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2012-13 (60 munud)**

**NDM5357 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2012-13.

Gellir gweld Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer 2012-13 drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://www.childcomwales.org.uk/uploads/publications/400.pdf

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y pryder a godwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru ynghylch difrifoldeb trefniadau diogelu annigonol.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth ganfyddiad yn yr adroddiad bod lleisiau plant a phobl ifanc yn aml yn cael eu hanwybyddu'n llwyr ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddangos arweinyddiaeth gadarnach o ran mynediad at eiriolaeth broffesiynol annibynnol.

Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth benderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â chyflwyno Bil Plant a Phobl Ifanc (Cymru) er ei hymrwymiad yn natganiad deddfwriaethol 2011, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i wyrdroi'r penderfyniad hwn a chyflwyno deddfwriaeth i gryfhau hawliau plant a phobl ifanc ac i ddiwygio'r sail statudol dros swyddfa'r Comisiynydd Plant.

Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno ymateb i Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru cyn ddadl flynyddol arno.

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 20 Tachwedd 2013

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 14 Tachwedd 2013 i'w hateb ar 19 Tachwedd 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Janet Finch-Saunders (Aberconwy): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am Gyllid Cymru? OAQ(4)1346(FM)

2. Keith Davies (Llanelli): Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi banciau bwyd yng Nghymru? OAQ(4)1350(FM)W

3. Nick Ramsay (Mynwy): A wnaiff y Prif Weinidog roi manylion yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella cystadleurwydd economaidd yng Nghymru? OAQ(4)1342(FM)

4. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): Pa gerrig milltir y disgwylir eu cyflawni gan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013? OAQ(4)1345(FM)

5. Lynne Neagle (Torfaen): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am effaith diwygio lles yng Nghymru? OAQ(4)1334(FM)

6. Sandy Mewies (Delyn): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r wybodaeth ddiweddaraf am achosion o'r frech goch yng Nghymru? OAQ(4)1344(FM)

7. Mark Isherwood (Gogledd Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyd-gynhyrchu o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus? OAQ(4)1340(FM)

**8. Christine Chapman (Cwm Cynon)**: Pa gamau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i wella economi Cymru yn y chwe blynedd diwethaf? OAQ(4)1336(FM) **TYNNWYD YNOL**

**9. Eluned Parrott (Canol De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddatblygu Maes Awyr Caerdydd? OAQ(4)1341(FM)

**10. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)**: Pa bryd y cyfarfu'r Prif Weinidog ddiwethaf ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru? OAQ(4)1348(FM)W

**11. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymdrechion i amddiffyn gwasanaethau rheng flaen yng nghyd-destun llymder ariannol? OAQ(4)1343(FM)

**12. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y ddarpariaeth ar gyfer rhai sydd â chanserau y mae'n anodd eu diagnosio? OAQ(4)1347(FM)

**13. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**: Pa asesiad a wnaeth y Prif Weinidog ynghylch a yw GIG Cymru'n dioddef pwysau'r gaeaf ar hyn o bryd? OAQ(4)1335(FM)

**14. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**: A all y Prif Weinidog gadarnhau faint o undebau credyd sy'n weithredol yng Nghymru ar hyn o bryd? OAQ(4)1337(FM)

**15. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau brys yn ardal Bwrdd Iechyd Hywel Dda? OAQ(4)1349(FM)W

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dydd Mawrth 26 Tachwedd a dydd Mercher 27 Tachwedd 2013

Dydd Mawrth 3 Rhagfyr a dydd Mercher 4 Rhagfyr 2013

Dydd Mawrth 10 Rhagfyr a dydd Mercher 11 Rhagfyr 2013

*******************************************************************

Dydd Mawrth 26 Tachwedd 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid: Ymateb Llawn Llywodraeth y DU i Adroddiad Comisiwn Silk ar Ddiwygio Ariannol (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Adolygiad Hill: Darparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Cynllun gweithredu strategol morol a physgodfeydd (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Y cynnydd o ran cyflwyno Strategaeth Yr Hawl i fod yn Ddiogel (30 munud)

  Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:
- Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 (15 munud)
- Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 (15 munud)
- Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Addasu Deddfiadau a Darpariaethau Eraill) 2013 (15 munud)

  Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Gofal (15 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol mewn perthynas â'r Bil Gofal (15 munud)

- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona mewn perthynas â'r eithriad ASBO (15 munud)
- Dadl: Y manteision i Gymru i'r DU barhau i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd (60 munud)

Dydd Mercher 27 Tachwedd 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl fer – Gwyn Price (Islwyn) (30 munud)
- Dadl fer – Julie James (Gorllewin Abertawe) (30 munud) – aildrefnwyd o 25 Medi

Dydd Mawrth 3 Rhagfyr 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Ymatebion i'r Papur Gwyn ar "Rentu Cartrefi" (30 munud)
- Dadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg (Cymru) (60 munud)
- Cynnig i gytuno ar benderfyniad ariannol mewn perthynas â Bil Addysg (Cymru) (5 munud)
- Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) (60 munud)
  Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn

codi yn y Bil. Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47.

- Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) (5 munud)
- Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar Fil Cyllid y GIG (Cymru) (60 munud)
  Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil. Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47.
- Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo Bil Cyllid y GIG (Cymru) (5 munud)

Dydd Mercher 4 Rhagfyr 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru) (30 munud)

Dydd Mawrth 10 Rhagfyr 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: PISA 2012 (30 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Dwr (15 munud)
- Dadl ar y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2014-15 (60 munud)
- Dadl ar yr Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy (60 munud)

- Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) (60 munud)
  Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae’r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae’r adrannau a’r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil. Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47.
- Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) (5 munud)

Dydd Mercher 11 Rhagfyr 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i’r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (45 munud)
- Cwestiynau i’r Gweinidog Tai ac Adfywio (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Julie Morgan (Gogledd Caerdydd) (30 munud)